Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

Agor canolfannau / clinigau meddygol un stop Covid Hir

Y Pwyllgor Deisebau | 29 November 2021
Petitions Committee | 29 Tachwedd 2021

Cyfeirnod: SR21/1251-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1217

Teitl y ddeiseb: Agor canolfannau / clinigau meddygol un stop Covid Hir

Geiriad y ddeiseb: Mae 1,000 o bobl yn dioddef o Covid hir nad ydynt yn cael unrhyw gymorth meddygol. Rydym yn teimlo ein bod yn cael ein hanwybyddu ac yn ddiymadferth. Mae ein bywydau wedi'u dinistrio.

1. Cefndir

Mae COVID hir yn gyflwr newydd a chymhleth ac nid yw wedi'i ddeall yn llawn hyd yn hyn. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gwella o COVID-19 ar ôl salwch byr. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn cael eu gadael yn cael trafferth gyda symptomau, gan gynnwys blinder hirdymor, poen parhaus a diffyg anadl, am fisoedd ar ôl cael eu heintio gan COVID-19. Gelwir hyn yn syndrom Ôl-COVID-19 – neu COVID hir.

Mae diffiniad clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, ar gyfer COVID hir fel a ganlyn:

> *Post-COVID-19 syndrome: signs and symptoms that develop during or after an infection consistent with COVID-19, continue for more than 12 weeks and are not explained by an alternative diagnosis.*

At hynny, mae'r Sefydliad uchod wedi cyhoeddi canllawiau clinigol ar sut i adnabod, asesu a rheoli effeithiau hirdymor COVID-19. Dywed fod COVID hir fel arfer yn cyflwyno gyda chlystyrau o symptomau, yn gorgyffwrdd yn aml, a all newid dros amser ac a all effeithio ar unrhyw system yn y corff. Gall dau berson sy'n dioddef o COVID hir gael profiadau gwahanol iawn

Yn ôl data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (4 Tachwedd 2021):

- Ar 2 Hydref 2021, amcangyfrifwyd bod 1.2 miliwn o bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat yn y DU (1.9% o'r boblogaeth) yn profi COVID hir, yn ôl eu hadroddiadau eu hunain. Roedd y symptomau'n cael effaith andwyol ar weithgareddau o ddydd i ddydd 65% o'r rheini â COVID yn ôl eu hadroddiadau eu hunain, gyda 19% yn nodi bod eu gallu i ymgymryd â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu lawer.
- Roedd nifer yr achosion o COVID hir yn ôl adroddiadau personol ar ei fwyaf ymhlith pobl rhwng 35 a 69 oed, menywod, pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, y rheini sy'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol, a'r rheini â chyflwr iechyd neu anabledd arall sy'n cyfyngu ar weithgareddau.

Mae erthygl gan Ymchwil y Senedd, Y Coronafeirws: COVID hir – "mae'n gêm o nadroedd ac ysgolion" yn darparu gwybodaeth gefndirol bellach ar COVID hir.

2. Camau gan Senedd Cymru

Ym mis **Mawrth 2021**, cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ymchwiliad i COVID hir. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch yr angen am wasanaethau amlddisgyblaethol arbenigol ar gyfer COVID hir a'r modd y gallai'r gwasanaethau arbenigol hyn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r cyflwr a'r gwasanaethau sydd eu hangen, yn hytrach na chyfeirio pobl at wasanaethau sydd eisoes â rhestrau aros hir.

Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor safbwyntiau gwahanol gan Long COVID Wales (grŵp cymorth i bobl sy'n byw gyda COVID hir) a gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch a yw'r gwasanaethau arbenigol hyn yn cael eu darparu orau gan glinigau COVID hir arbenigol amlddisgyblaethol neu beidio. At hynny, clywodd y Pwyllgor fod angen ariannu a darparu adnoddau i'r gwasanaethau hyn ar wahân, ac nid eu hychwanegu at wasanaethau adsefydlu sydd eisoes o dan bwysau.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mehefin 2021 gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad llafar ar wasanaethau sy'n cefnogi pobl i wella ar ôl COVID-19. Yn dilyn y datganiad hwn, cododd rhai Aelodau o'r Senedd y mater o ran clinigau amlddisgyblaethol arbenigol / 'clinigau siop-un-stop' ar gyfer COVID hir. Tynnodd y Gweinidog sylw at yr anhawster wrth ffurfio clinigau sy'n arbenigo ym mhopeth, ac aeth ymlaen i ddweud:

> Felly, rwy'n credu bod y model sy'n cael ei ddatblygu mewn lleoedd fel Aneurin Bevan, lle byddan nhw'n cynnig gofal cofleidiol i'r unigolyn ac yn sicrhau bod tîm yn edrych mewn gwirionedd ar bob agwedd ar sut y mae'r unigolyn yn ymateb, gan edrych ar ei iechyd meddwl, edrych ar ei ddeiet, edrych ar y problemau gwirioneddol benodol sydd ganddo a'r angen i weld arbenigwr mewn llawdriniaeth ar yr ysgyfaint ac arbenigwr y galon. Mae'r pethau hynny, rwy'n credu, yn cynnig llwybr llawer gwell yn hytrach na'r clinigau, a dyna pam yr ydym wedi mynd a chael cyngor gan arbenigwyr clinigol yn hyn o beth, a dyna'n sicr y maen nhw wedi'i argymell.. [para 258]

Pan ofynnwyd iddi ymhellach am y penderfyniad i beidio â sefydlu clinigau COVID hir pwrpasol, dywedodd y Gweinidog:

> Rwyf wedi gwneud pwynt o wrando ar gleifion, o edrych ar yr hyn sy'n cael ei ddweud ar sianeli cyfryngau cymdeithasol. Ond hefyd rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd arnaf wrando ar y cyngor clinigol a roddir i

> mi, a'r cyngor a roddwyd i mi, yn glir iawn, yw bod y llwybr yr ydym eisiau ei ddilyn yng Nghymru, a'r llwybr sy'n cydymffurfio â'n dull gweithredu, sef rhoi gofal mor agos i gartref â phosibl, mewn gwirionedd yn gwneud synnwyr i ni, i sicrhau bod y llwybr hwnnw drwy'r meddyg teulu. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yw cryfhau dealltwriaeth pobl mewn gofal sylfaenol, a sicrhau eu bod wedyn yn cael eu hatgyfeirio i ofal eilaidd os, a phan fo angen. [para 276]

Codwyd y mater o ran COVID hir ym Mhwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Chweched Senedd ar 23 Medi 2021, pan gynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol gyda Gweinidogion, gan gynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gan y Senedd grŵp trawsbleidiol ar COVID hir, gyda'r nod o hyrwyddo anghenion meddygol ac anghenion eraill dioddefwyr COVID hir yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu'r rheini sy'n byw gyda COVID hir.

3. Camau gan Lywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, codwyd y mater o ran COVID hir yn ym Mhwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ac ym Mhwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Chweched Senedd. Mae tystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol ar gamau a gymerwyd mewn perthynas â chefnogaeth a thriniaeth ar gyfer COVID hir.

- Mae Ap Adfer COVID GIG Cymru, a lansiwyd ar 20 Ionawr, wedi'i ddatblygu i gefnogi unrhyw un sy'n gwella ar ôl COVID-19. Mae'n darparu cyngor gan therapyddion, seicolegwyr, dietegwyr ac ymgynghorwyr.
- Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid o £5 miliwn i gefnogi rhaglen llwybr cleifion newydd – Adferiad (Recovery) – a gwella'r diagnosis, y driniaeth, a'r adferiad a'r gofal i bobl sy'n dioddef o effeithiau hirdymor COVID-19. Mae rhagor o fanylion ar sut y bydd yr arian yn cael ei wario i'w cael yn y cyhoeddiad.

Dychwelir at raglen Adferiad bob chwe mis i ystyried tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac arfer gorau.

- Ochr yn ochr â'r rhaglen Adferiad, mae **canllaw Cymru gyfan ar gyfer rheoli COVID hir** wedi'i gyflwyno. Mae'r canllaw hwn ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol – sy'n seiliedig ar Lwybr Cymunedol Cymru Gyfan – yn cynnig y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer rheoli COVID hir ar draws y GIG yng Nghymru. Y nod yw y bydd gan weithwyr iechyd proffesiynol ledled Cymru fynediad at yr un wybodaeth a chyngor ynghylch triniaeth ar y cyflwr hwn, ac y bydd ganddynt hefyd ganllaw clir o ran sut a phryd i gyfeirio rhywun ymlaen am driniaeth a chefnogaeth.

Wrth gyfathrebu â'r Pwyllgor Deisebau ar 26 Hydref 2021, dywed y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi gweithio gyda'i feddygfeydd teulu a'i wasanaethau cymunedol i sefydlu llwybrau lleol clir i sicrhau y gall pobl â COVID hir gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Gellir darparu'r mwyafrif o'r rhain mor agos i'r cartref â phosibl, o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

At hynny, mae’r Gweinidog yn nodi fod pobl sydd angen mynediad at wasanaethau mwy arbenigol – sydd ar gael o wasanaethau mewn ysbytai yn unig – yn cael eu cyfeirio at yr arbenigedd mwyaf priodol i wella eu hiechyd, a gall meddygon teulu gael gafael ar gyngor arbenigol gan ysbytai i gefnogi pobl yn y gymuned.

Mae cyngor ar-lein ac adnoddau hunanreoli ar gael ar wefan pob bwrdd iechyd. Mae’r Gweinidog yn amlygu y gall adferiad yn dilyn COVID-19 gael ei reoli’n uniolnyrchiol gan lawer o bobl a lle mae hyn yn briodol, gellir darparu cefnogaeth trwy ap Adfer GIG Cymru. Aiff y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> Mae ein dull gweithredu yn ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o atgyfeiriadau a throsglwyddiadau yn digwydd i bobl, gan sicrhau bod pobl yn cael eu rheoli mewn modd holistaidd ac mai dim ond lleiafrif o achosion sy’n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau meddygol arbenigol, a bod hynny’n digwydd dim ond pan fo’r gweithiwr iechyd proffesiynol sy’n asesu’r unigolyn yn nodi bod angen arbenigedd arno.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.